# Arweinyddiaeth y tribiwnlysoedd

Ymgynghoriad ar ddiwygio swydd Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd

## Crynodeb gweithredol

Mae swydd annibynnol Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn rhoi arweiniad i farnwriaeth y tribiwnlysoedd. Gwnaeth y Senedd ddarpariaeth ar gyfer y swydd yn 2007, yn y Ddeddf a sefydlodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys. Ers hynny, mae'r uwch farnwriaeth ar draws y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, o fewn terfynau'r fframwaith statudol presennol, wedi bwrw ymlaen â nifer o gynlluniau i ddod â'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn nes at ei gilydd a llunio system gyfiawnder effeithiol, effeithlon a modern.

Nawr, mae'r Llywodraeth yn cynnig diwygio swydd Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd fel rhan o'i gwaith ehangach i ddod â mwy o gydlynu rhwng barnwriaethau'r llysoedd a thribiwnlysoedd ac i'r system gyfiawnder yn ei chyfanrwydd. Mae'r Llywodraeth wedi gweithio'n agos gyda'r uwch farnwriaeth i ystyried y ffordd orau o gyflawni hyn, ac mae'n bwriadu disodli'r swydd bresennol gydag un wedi'i had-drefnu dan arweinyddiaeth Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr, a fydd yn eistedd ochr yn ochr â Phenaethiaid Is-adrannau barnwriaeth Cymru a Lloegr.[1] Bydd y diwygiad arfaethedig yn golygu y bydd deiliaid swyddi barnwrol y tribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr yn dod yn rhan o'r un strwythur barnwrol â barnwyr y llysoedd, ond bydd strwythur y tribiwnlysoedd eu hunain yn aros fel y mae ar hyn o bryd. Bydd angen deddfwriaeth sylfaenol er mwyn rhoi'r cynigion ar waith.

Dan y cynigion, bydd llawer o gyfrifoldebau a gyflawnir gan Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd ar hyn o bryd yn cael eu trosglwyddo'n ffurfiol i'r Arglwydd Brif Ustus, a bydd gan yr Arglwydd Brif Ustus y pŵer i'w dirprwyo. Bydd hyn yn caniatáu dirprwyo cyfrifoldebau sy'n ymwneud â'r tribiwnlysoedd i ddeiliad swydd ddiwygiedig pennaeth y tribiwnlysoedd, yn yr un modd ag y mae'r Arglwydd Brif Ustus yn dirprwyo cyfrifoldebau i Benaethiaid Is-adrannau. Felly, bydd rôl ddiwygiedig Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd, yn parhau i ddarparu uwch arweinyddiaeth benodol yn awdurdodaeth y tribiwnlysoedd.

Yn wahanol i swyddi Penaethiaid Is-adrannau, mae gan Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd gylch gwaith ledled y DU, gan ei fod yn gyfrifol am y tribiwnlysoedd a gedwir, sy'n delio â materion wedi'u cadw yn ôl yng nghyfraith y DU ac mae ganddynt awdurdodaeth a

[1] Y Penaethiaid Is-Adrannau yw Llywydd Adran Mainc y Brenin, Llywydd yr Adran Deulu a Changhellor yr Uchel Lys.

strwythurau ledled y DU.[2] Felly, mae'r Llywodraeth yn cynnig gwahanu cyfrifoldebau Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd i'r graddau y maent yn ymwneud â barnwyr ac aelodau nad ydynt yn gyfreithiol sy'n gweithio yn y tribiwnlysoedd a gedwir yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon, er mwyn cadw'r cyfrifoldebau hyn ar wahân. Felly, bydd swydd ddiwygiedig Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn gyfrifol am y tribiwnlysoedd a gedwir yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.[3] Ni fydd y cyfrifoldeb hwn yn trosglwyddo i Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr, ac felly bydd Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn arfer y dyletswyddau hynny'n annibynnol ar unrhyw bwerau a ddirprwyir gan yr Arglwydd Brif Ustus mewn perthynas â Chymru a Lloegr.

---

[2] Yn yr Alban, y tribiwnlysoedd a gedwir hyn yw'r Tribiwnlys Mewnfudo a Lloches, y Tribiwnlys Cyflogaeth (yr Alban) a Siambr Hawliau Cymdeithasol Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (sy'n delio ag apeliadau sy'n ymwneud â nawdd cymdeithasol a chynnal plant). Fe'u gweinyddir ar hyn o bryd gan GLITEF (Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi), sy'n gweinyddu llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae gan yr Alban a Gogledd Iwerddon wasanaethau ar wahân i weinyddu eu llysoedd a'u tribiwnlysoedd eu hunain.

[3] Mae siart trefniadaeth y tribiwnlysoedd sy'n dangos pa dribiwnlysoedd sydd ag awdurdodaethau sy'n gwasanaethu Prydain Fawr neu'r Deyrnas Unedig ar gael yn https://www.judiciary.uk/guidance-and-resources/tribunals-organisation-chart/.https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2022/04/Tribunals-Chart-Updated-August-2022-31.pdf